Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cyllideb yr Heddlu ar gyfer 2026/2027



Cyhoeddwyd Mawrth 2026

# Mynd i'r afael â heriau ariannol a chynyddu nifer y Swyddogion Heddlu mewn Timoedd Plismona Bro

Mae Dafydd Llywelyn, eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh), yn gyfrifol am osod y gyllideb ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys. Mae hyn yn cynnwys gosod y praesept, sef yr elfen o'r dreth gyngor sy'n mynd tuag at eich gwasanaeth heddlu lleol.

Ar ôl proses o graffu dros sawl mis, cefnogodd Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gynnig y Comisiynydd ar gyfer praesept 2026/27 yn unfrydol, a fydd yn cynyddu'r eiddo band D cyfartalog o 7.47%, neu £26.95 y flwyddyn, sef £2.25 y mis.


Mae cydbwysedd tenau rhwng mynd i'r afael â galwadau gweithredol i sicrhau diogelwch y cyhoedd, tra'n sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr a rheolaeth ariannol gadarn. Wrth osod y praesept, mae'r CHTh yn ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys chwyddiant a phwysau costau, galwadau gwasanaeth, gofynion buddsoddi yn y dyfodol ar gyfer seilwaith hanfodol, cynlluniau effeithlonrwydd a chynhyrchiant yn ogystal ag ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn. Mae'r CHTh hefyd yn ceisio adborth gan drigolion ardal Dyfed-Powys, gan gydnabod y baich ychwanegol y bydd unrhyw gynnydd yn y praesept yn ei roi ar drethdalwyr.

Bydd yr arian praesept yn cyflwyno gwelliannau sylweddol i wasanaethau heddlu. Bydd gwell rhaglen atal, ymyrraeth ac ymgysylltu ar gyfer pobl ifainc yn canolbwyntio ar gymorth cynnar, dargyfeirio rhag trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chyfleoedd cadarnhaol drwy waith partneriaeth gydag ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau ieuenctid.

Bydd y cynnydd yn y praesept ynghyd â'r Grant Gwarant Plismona Bro yn cefnogi cynyddu timoedd plismona bro lleol gydag 13 swyddog heddlu ychwanegol.

Bydd buddsoddiadau hefyd yn cael eu gwneud mewn offer gweithredol hanfodol, technoleg, diweddariadau, a staff ychwanegol i gefnogi swyddogion rheng flaen a gwella effeithlonrwydd. Bydd y gwelliannau hyn yn helpu i leihau baich gweinyddol, gan roi mwy o amser i swyddogion weithio gyda chymunedau lleol.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i sicrhau gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i'r cyhoedd. Maent yn hyderus bod y cynnydd hwn yn angenrheidiol i warchod diogelwch a lles ein cymdogaethau.



## Faint fyddwch chi'n talu am blismona yn 2026-27 drwy eich Treth Gyngor?

| Band Treth | Sail | 2025/26 | 2026/27 | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| A | 6/9fed | £240.45 | £258.42 | £17.97 |
| B | 7/9fed | £280.53 | £301.49 | £20.96 |
| C | 8/9fed | £320.61 | £344.56 | £23.95 |
| **D** | **9/9fed** | **£360.68** | **£387.63** | **£26.95** |
| E | 11/9fed | £440.83 | £473.77 | £32.94 |
| F | 13/9fed | £520.98 | £559.91 | £38.93 |
| G | 15/9fed | £601.13 | £646.05 | £44.92 |
| H | 18/9fed | £721.36 | £775.26 | £53.90 |
| I | 21/9fed | £841.59 | £904.47 | £62.88 |



## Ble mae'r arian yn mynd ac yn dod:

| Cyllideb refeniw | 2025/26 Diwygiwyd £m | 2026/27 £m |
|---|---|---|
| Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | 1,628 | 1,701 |
| Gwasanaethau a Gomisiynir | 1,662 | 1,767 |
| **Costau Net SCHTh** | **3,289** | **3,468** |
| Cyflogau a Phensiynau Swyddogion a Staff yr Heddlu | 144,751 | 151,548 |
| Treuliau Rhedeg Eraill | 26,156 | 26,984 |
| Gwasanaethau Asiantaethau a Gwasanaethau ar Gontract | 5,351 | 5,650 |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 4,468 | 6,017 |
| **Cyfanswm Gwariant Gros yr Heddlu** | **180,726** | **190,199** |
| Incwm | -10,858 | -11,090 |
| Grantiau Eraill | -14,910 | -16,169 |
| Cyfraniad net o Gronfeydd Wrth Gefn | -1,938 | -1,318 |
| **Gofyniad Cyllideb** | **156,310** | **165,089** |
| Grant yr Heddlu (Swyddfa Gartref) | -61,845 | -64,033 |
| Ardrethi Annomestig a Ailddosbarthwyd (Llywodraeth Cymru) | -191 | -184 |
| Grant Cynnal Refeniw (Llywodraeth Cymru) | -7,908 | -7,838 |
| Praesept Treth Gyngor | -86,366 | -93,033 |
| **Cyfanswm yr Arian** | **-156,310** | **-165,089** |
| **Cyllideb Gwariant Cyfalaf** | **17.56** | **25.35** |
| **Amcangyfrif o gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol** | **-17.67** | **-11.668** |

# Diwrnod arferol i Heddlu Dyfed-Powys:

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gysylltu â'r Heddlu, gan gynnwys ar-lein. Ymdrinnir â chyswllt ar-lein yn yr un modd â galwadau 101 nad ydynt yn rhai brys. Dyma rai o enghreifftiau o'r gofynion sy'n cyfrannu at ddiwrnod arferol i Heddlu Dyfed-Powys.*

**170** Galwadau 999

**458** Galwadau 101

**320** Cysylltiadau Digidol

**104** Troseddau a gofnodwyd

**6** Digwyddiad Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a adroddwyd

**5** Digwyddiadau Twyll

**5** Troseddau Rhywiol

**18** Troseddau cam-drin domestig

**4** Troseddau cyffuriau (gyda chanlyniad cadarnhaol)

**10** Pobl ar goll

**36** Digwyddiadau iechyd meddwl

**17** Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd

*Yn seiliedig ar ddata blwyddyn ariannol 2024-2025

## Bydd cyllideb 26-27 yn cefnogi:

| | |
|---|---|
| **Swyddogion Heddlu** | **1311** |
| **SCCH** | **132** |
| **Staff Heddlu** | **925** |

*(Cyfwerth â llawn amser)*



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

01267 226440 opcc@dyfed-powys.police.uk

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin SA31 2PF

www.dyfedpowys-pcc.org.uk @DPOPCC